**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Vikki Howells AS

21 Mawrth 2025

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo**

Annwyl Jane a Vikki,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yw 2 Mai 2025.

Rydym yn ysgrifennu atoch ar y cyd mewn perthynas â materion penodol sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

1. Beth yw eich barn ar gymal 38, ac a oes gennych unrhyw bryderon am weddill y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Mudo Anghyfreithlon 2023 ac elfennau o Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022?

2. Beth yw eich barn ar natur ôl-weithredol cymal 51?


3. Pa drafodaethau ydych wedi'u cael â'r 17 sefydliad yng Nghymru sydd ag aelodaeth weithredol o Wasanaeth ENIC y DU?

4. A ydych wedi gofyn am unrhyw eglurhad ynghylch sut y cododd y materion yr ymdrinnir â hwy yng nghymal 51 yn y lle cyntaf, ac a yw'r Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiad o'r sefyllfa?

5. A ydych wedi cael amcangyfrif o swm a gwerth y ffioedd a godwyd heb awdurdod statudol, ac o'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru?

6. Pam nad ydych yn ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 53 o'r Bil? Mae cymal 53 yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ganlyniadol. Gall y rheoliadau hyn ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu deddfiadau. Mae cymal 53(3)(c) yn datgan bod "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn Mesur neu Ddeddf Senedd Cymru, neu wedi'i gynnwys mewn offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Senedd Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb erbyn dydd Gwener 28 Mawrth fan bellaf. Os oes gennych unrhyw bryderon am yr amserlen hon, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod ar unrhyw adeg.

Yn gywir,





Buffy Williams AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.